**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| PWYLLGOR | **PWYLLGOR ARCHWILIO** |
| DYDDIAD | **13 IONAWR 2011** |
| TEITL | **CYNNYRCH YR ADAIN ARCHWILIO MEWNOL** |
| PWRPAS YR ADRODDIAD | **AMLINELLU GWAITH YR ADAIN ARCHWILIO MEWNOL AM Y CYFNOD HYD AT 30 TACHWEDD 2010** |
| AWDUR | **DEWI MORGAN, UWCH REOLWR ARCHWILIO A RISG** |
| GWEITHREDIAD | **DERBYN YR ADRODDIAD, SYLWEBU AR Y CYNNWYS A CHEFNOGI'R ARGYMHELLION SYDD EISIOES WEDI'U CYFLWYNO I'R GWASANAETHAU PERTHNASOL ER GWEITHREDIAD** |

---

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Mae'r adroddiad yma yn crynhoi gwaith yr Adain Archwilio Mewnol am y cyfnod o 1 Medi 2010 hyd at 30 Tachwedd 2010.

## 2. GWAITH A GWBLHAWYD YN Y CYFNOD

2.1 Cwblhawyd y gwaith canlynol yn y cyfnod hyd at 30 Tachwedd 2010:

| Disgrifiad | Nifer |
|---|---:|
| Adroddiadau am Archwiliadau o'r Cynllun Gweithredol | 25 |
| Adroddiadau Eraill (memoranda ayb) | 2 |
| Archwiliadau Dilyniant | 3 |
| Archwiliadau Ymatebol | 4 |

Ceir manylion pellach ar y gwaith yma yng nghorff yr adroddiad hwn ac yn yr atodiadau amgaeëdig.

## 2.2 Adroddiadau Archwilio

2.2.1 Mae'r tabl canlynol yn gosod allan yr archwiliadau o'r cynllun a gwblhawyd yn y cyfnod hyd at 30 Tachwedd 2010, gan ddangos y categori barn perthnasol a chyfeiriad i'r atodiad perthnasol. Mae adroddiad i Ymwybyddiaeth o'r Polisi Canu'r Gloch yn ymddangos fel eitem ar wahân ar raglen y Pwyllgor.

| TEITL | ADRAN | GWASANAETH | BARN | ATODIAD |
|---|---|---|---|---|
| Ysgol Ardudwy | Addysg | Ysgolion | B | Atodiad 1 |
| Ysgol Botwnnog | Addysg | Ysgolion | B | Atodiad 2 |
| Ysgol Dyffryn Nantlle | Addysg | Ysgolion | B | Atodiad 3 |
| Ysgol Glan Y Môr | Addysg | Ysgolion | B | Atodiad 4 |
| Ysgol Tryfan | Addysg | Ysgolion | B | Atodiad 5 |
| Gwaredu Gwastraff Cyfrinachol | Corfforaethol | | B | Atodiad 6 |
| System e-Dendro | Corfforaethol | | B | Atodiad 7 |
| Cyfundrefn a Phrosesau Cyfalaf | Cyllid | Cyfrifeg | B | Atodiad 8 |
| Paratoadau ar gyfer IFRS - Prydlesi | Cyllid | Cyfrifeg | B | Atodiad 9 |
| Gweithredu Newidiadau Cyflog | Cyllid | Pensiynau a Chyflogau | B | Atodiad 10 |
| Taliadau budd-dal yn dilyn trosglwyddiad y stoc dai | Cyllid | Refeniw | B | Atodiad 11 |
| System Rheolaeth Gofal Cartref | Darparu a Hamdden | Cefnogaeth Busnes a Gweinyddiaeth | A | Atodiad 12 |
| Canolfan Hamdden Glan Wnion | Darparu a Hamdden | Hamdden | C | Atodiad 13 |
| Canolfan Hamdden Glaslyn | Darparu a Hamdden | Hamdden | B | Atodiad 14 |
| Canolfan Hamdden Plas Silyn | Darparu a Hamdden | Hamdden | C | Atodiad 15 |
| Yr Argraffdy | Democratiaeth a Chyfreithiol | Democratiaeth | Dim Categori | Atodiad 16 |

| TEITL | ADRAN | GWASANAETH | BARN | ATODIAD |
|---|---|---|---|---|
| Trefniadau Trosglwyddo Hyfforddiant Gwynedd | Economi a Chymuned | Hyfforddiant Gwynedd | B | Atodiad 17 |
| Grantiau Clybiau Ieuenctid - Grant Cyfalaf | Economi a Chymuned | Strategaeth a Datblygu | B | Atodiad 18 |
| Grantiau Clybiau Ieuenctid - Grant Refeniw | Economi a Chymuned | Strategaeth a Datblygu | B | Atodiad 19 |
| Uned Rheoli Cofnodion | Gofal Cwsmer | Gwybodaeth | C | Atodiad 20 |
| Rheolaeth Dyfeisiadau | Gofal Cwsmer | Technoleg Gwybodaeth | B | Atodiad 21 |
| Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd Cymru - Risgiau Newid Hinsawdd | Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd Cymru | | A | Atodiad 22 |
| Cyflwr Ffyrdd - Archwiliadau a chwynion y cyhoedd | Priffyrdd a Bwrdeistrefol | Gwaith Priffyrdd | B | Atodiad 23 |
| Costau Toiledau Cyhoeddus | Priffyrdd a Bwrdeistrefol | Rheoli Gwastraff a Strydoedd | B | Atodiad 24 |

2.2.2 Mae categorïau barn yr adroddiadau yn datgan y canlynol:

Barn "A" Gellir datgan sicrwydd o briodoldeb ariannol gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle, a'u bod wedi eu dilyn.

Barn "B" Mae rheolaethau mewn lle, a gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb ariannol gan fod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau.

Barn "C" Ni ellir datgan sicrwydd o briodoldeb ariannol gan na ellir dibynnu ar y rheolaethau mewn lle, ond ni ddarganfuwyd colledion / twyll yn deillio o'r gwendidau rheolaeth.

Barn "CH" Ni ellir datgan sicrwydd o briodoldeb ariannol gan nad oes rheolaethau derbyniol yn bodoli, a darganfuwyd colledion / twyll yn deillio o'r gwendidau rheolaeth hyn.

2.2.3 Yn ogystal â'r uchod, cynhaliwyd yr archwiliad isod. Yn yr achos yma, cynhyrchwyd memorandwm yn hytrach nag adroddiad llawn, a ni roddwyd categori barn:

- Chwiliadau a Phridiannu Tir *(Democratiaeth a Chyfreithiol)*
- Cyfrifon Terfynol Cynllun A499 *(Ymgynghoriaeth Gwynedd)*

## 2.3 Archwiliadau Dilyniant

2.3.1 Mae'r tabl isod yn crynhoi'r gwaith dilyniant a gwblhawyd yn ystod y cyfnod:

| TEITL | ADRAN | GWASANAETH | BARN DILYNIANT |
|---|---|---|---|
| Lwfansau Mabwysiadu, Gorchymyn Preswyl a Gwarcheidiaeth Arbennig | Gwasanaethau Cymdeithasol | Plant a Theuluoedd | **Derbyniol** |
| Casglu Data Gwasanaethau Cymdeithasol | Gwasanaethau Cymdeithasol | | **Derbyniol** |
| Canolfan Hamdden Plas Ffrancon | Darparu a Hamdden | Hamdden | **Derbyniol** |

2.3.2 Gosodir casgliadau gwaith dilyniant mewn un o bedwar categori:

**Rhagorol** – pob un o'r argymhellion wedi eu gweithredu yn unol â'r disgwyl.

**Derbyniol** – y rhan fwyaf o'r argymhellion, gan gynnwys y mwyafrif o'r argymhellion "hanfodol", wedi eu gweithredu yn ôl y disgwyl.

**Anfoddhaol** – nifer o'r argymhellion heb eu gweithredu.

**Annerbyniol** – y mwyafrif o'r argymhellion (gan gynnwys argymhellion pwysig) heb eu gweithredu, a dim tystiolaeth o ymdrech i wella rheolaeth fewnol.

2.3.3 Mae'r rhestr isod yn dangos yr Adroddiadau Barn 'C' neu 'CH' a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Archwilio fel atodiadau i'r adroddiadau chwarterol, lle nad yw'r adroddiad dilyniant wedi'i gyflwyno i'r Pwyllgor eto. Mae'r rhestr yn dangos y dyddiad sy'n darged cwblhau pob un o'r archwiliadau dilyniant hyn:

**Targed Cwblhau: Chwarter yn diweddu 31 Rhagfyr 2010**

Cydymffurfiaeth gyda CoCo (Parth GCSx)
System Cynllunio Dyfodol Plant a Phobl Ifanc Mewn Gofal
Ôl-ddyledion Arian cinio, Ysgolion Cynradd
Trefniadau Recriwtio Ysgolion Cynradd

**Targed Cwblhau: Chwarter yn diweddu 31 Mawrth 2011**

Gorchmynion Ffyrdd
Cytundebau Escrow
Bryn Afon
Trefniadau Cofrestru Genedigaethau, Priodasau a Marwolaethau

**Targed Cwblhau: Chwarter yn diweddu 30 Mehefin 2011**

Uned Rheoli Cofnodion
Canolfan Hamdden Plas Silyn
Canolfan Hamdden Glan Wnion

## 2.4 Archwiliadau Ymatebol

2.4.1 Cynhaliwyd archwiliad ymatebol wedi i'r Uwch Reolwr Archwilio a Risg dderbyn ymholiad gan un o aelodau'r Pwyllgor Archwilio ynglyn â threfn penodi contractwyr o fewn y Cyngor. Roedd yr ymholiad yn benodol ynglyn ag os oedd y Rheolau Gweithdrefn Contractau wedi eu dilyn yn gywir yn achos penodiad ymgynghorydd hunan-gyflogedig. Darganfyddiad yr archwiliad oedd nad oedd y broses dendro arferol, ddisgwyliedig wedi ei dilyn yn yr achos yma, ac nad oedd y Rheolau Gweithdrefn Contractau wedi eu hildio yn y modd arferol ychwaith. Fel canlyniad, paratowyd memorandwm er sylw'r Pennaeth Adran perthnasol yn unol â threfn Archwilio Mewnol, gydag argymhellion er mwyn cryfhau'r drefn ar gyfer gosod cytundebau i ymgynghorwyr hunan-gyflogedig yn y dyfodol.

2.4.2 Cwblhawyd archwiliad i fater personél yn ymwneud ag amgylchiadau lleihau oriau gwaith athrawon yn un o'r ysgolion cynradd ar gais yr Adran Addysg a'r Uned Gyfreithiol. Cynhaliwyd cyfweliadau gydag unigolion allweddol, a paratowyd adroddiad i sylw'r Adran Addysg a'r Uned Gyfreithiol am ystyriaeth bellach.

2.4.3 Adroddwyd i'r Cyngor ar 13 Mai 2010 fod y gwariant ar gynllun Ysgol yr Hendre yn debygol o fod oddeutu £2.2 miliwn yn uwch na'r amcangyfrifon gwreiddiol. Tra fod y Cyngor wedi cytuno i wneud darpariaeth oddi mewn i'r Strategaeth Asedau Corfforaethol ar gyfer goresgyn y diffyg yn y gyllideb, penderfynwyd hefyd i gyfeirio'r mater i'r Prif Bwyllgor Craffu. Adolygwyd yr amgylchiadau gan Archwilio Mewnol, a cyflwynwyd adroddiad i'r Prif Bwyllgor Craffu ar 30 Medi 2010.

2.4.4 Ar gais yr Adran Darparu a Hamdden, cynhawliwyd archwiliad o'r trefniadau oedd yn eu lle yng nghartref pobl hyn Bryn Llywelyn er mwyn cau'r cartref yn drefnus a sicrhau gweithdrefnau priodol ar gyfer trosglwyddo adnoddau. Adnabuwyd rhai gwendidau yn y trefniadau oedd wedi bod yn eu lle yn y cartref o safbwynt rheoli arian preswylwyr, eiddo'r Cyngor, archebu nwyddau a chronfa amwynder y Cartref, ond yn gyffredinol gwelwyd fod y trefniadau ar gyfer cau'r sefydliad a throsglwyddo'r asedau yn briodol.

## 3. GWAITH AR Y GWEILL

3.1 Roedd y gwaith canlynol ar y gweill ar 1 Rhagfyr 2010.

### 3.2 Adroddiadau Drafft wedi eu rhyddhau

- Ysgol Coed Menai *(Addysg)*
- Gwirio Rhestrau Gweithwyr *(Adnoddau Dynol)*
- Iechyd a Diogelwch - y "fflyd lwyd" *(Adnoddau Dynol)*
- Rheolaeth Ffonau Symudol *(Corfforaethol)*
- Trefniadau Adolygu Perfformiad Staff - Gwerthuso *(Corfforaethol)*
- Amseriad cychwyn gwaith ac arwyddo / selio contractau *(Corfforaethol)*
- Paratoadau ar gyfer IFRS - Asedau *(Cyllid)*
- Paratoadau ar gyfer IFRS - Buddiannau Gweithwyr *(Cyllid)*
- Canolfan Hamdden y Pafiliwn *(Darparu a Hamdden)*
- Gweinyddu Meddyginiaeth yng nghartrefi'r Cyngor *(Darparu a Hamdden)*
- Neuadd Chwaraeon Bro Ffestiniog *(Darparu a Hamdden)*
- Contractau TGCh *(Gofal Cwsmer)*
- Diweddaru'r wefan a'r safle mewnrwyd *(Gofal Cwsmer)*
- Trefniadau Argyfwng Gwasanaethau Cymdeithasol *(Gwasanaethau Cymdeithasol)*
- Cytundeb Fframwaith Cynnal Ffyrdd *(Priffyrdd a Bwrdeistrefol)*
- Strategaeth Gwastraff *(Priffyrdd a Bwrdeistrefol)*

### 3.3 Archwiliadau yn mynd rhagddynt

- Ysgol Dyffryn Ogwen *(Addysg)*
- Ysgol Friars *(Addysg)*
- Ysgol Uwchradd Tywyn *(Addysg)*
- Ysgol y Berwyn *(Addysg)*
- Cyn-stoc Tai - Arian Dargadw *(Corfforaethol)*
- Defnydd Cyfieithwyr Allanol *(Corfforaethol)*
- Defnydd Ynni *(Corfforaethol)*
- NFI (Y Fenter Twyll Genedlaethol) *(Corfforaethol)*
- PQQ a Thendr Ysgol yr Hendre *(Corfforaethol)*
- Rheolaeth fflecsi / TOIL / gweithio o gartref *(Corfforaethol)*
- Trefniadau Atal Twyll - "Llyfr Coch" CIPFA *(Corfforaethol)*
- Trefniadau derbyn arian *(Cyllid)*
- Rheolaeth Cronfeydd Answyddogol *(Darparu a Hamdden)*
- Gweinyddu'r Gofrestr Etholiadol *(Democratiaeth a Chyfreithiol)*
- Cist Gwynedd *(Economi a Chymuned)*
- Parc Gwledig Glynllifon *(Economi a Chymuned)*
- Parc Gwledig Padarn *(Economi a Chymuned)*
- Canolfan Gyswllt Galw Gwynedd *(Gofal Cwsmer)*
- Gweithio Symudol a Diogelwch y Perimedr *(Gofal Cwsmer)*
- Rheolaeth Asbestos *(Gofal Cwsmer)*
- Uned Cludiant Integredig *(Rheoleiddio (Cynllunio, Trafnidiaeth a Gwarchod y Cyhoedd))*
- Ymgynghoriaeth Gwynedd - Dethol Contractwyr *(Ymgynghoriaeth Gwynedd)*

## 4. ARGYMHELLIAD

4.1 Gofynnir i'r Pwyllgor dderbyn yr adroddiad hwn ar waith yr Adain Archwilio Mewnol am y cyfnod o 1 Medi 2010 i 30 Tachwedd 2010, sylwebu ar y cynnwys yn ôl dymuniad yr aelodau, a chefnogi'r argymhellion sydd eisoes wedi'u cyflwyno i reolwyr y gwasanaethau perthnasol er gweithrediad.

# YSGOL ARDUDWY
## Addysg

Bwriad yr Archwiliad
Sicrhau fod trefniadau yn Ysgol Ardudwy er mwyn rheoli a lliniaru risgiau yn briodol ac yn unol â Rheoliadau Ariannol Ysgolion, Cyfarwyddiadau Estyn a gweithdrefnau perthnasol eraill.

Cwmpas yr Archwiliad
Archwiliwyd y prif feysydd gwariant ac incwm yn ôl y cofnod yng nghyfriflyfr 2009/10 a 2010/11 (Cedar). Profwyd hefyd trefniadau'r ysgol er mwyn rheoli ystod amrywiol o risgiau.

Prif Ddarganfyddiadau
Cynhaliwyd profion archwilio ar 94 o reolaethau mewnol. Dangosodd y profion fod rheolaethau mewnol da yn bodoli mewn 85 o'r meysydd hyn. Prif ddarganfyddiadau'r archwiliad yw bod anghysondeb rhwng cyllideb derfynol yr ysgol a thaenlen monitro Uned Gyllid, a bod peth gwendid yn y drefn o wirio trwyddedau gyrru defnyddwyr y bws mini.

**Barn yr Archwiliad**

**(B) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb ariannol yn Ysgol Ardudwy gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylid sicrhau fod unrhyw addasiadau a wneir i gyllidebau ysgolion yn cael eu mewnbynnu yn syth i daenlen monitro staff yr Uned Gyllid Datblygu.**
- **Dylid sicrhau fod holl offer yr ysgol yn cael eu marcio fel eiddo'r ysgol.**
- **Dylai'r ysgol greu polisi trwyddedau meddalwedd a sicrhau fod pob aelod o staff yr ysgol yn derbyn copi o'r polisi.**
- **Dylid sicrhau fod rhestr meddalwedd yn bodoli a'i fod yn nodi lleoliad y meddalwedd h.y. pa gyfrifiadur a pha Adran maent wedi eu lleoli.**
- **Dylid sicrhau fod gan y banc mandad cyfredol ar gyfer yr ysgol.**
- **Dylid sicrhau bod gwrthddalenau trwyddedau'r gyrwyr sy'n gyrru'r bws mini yn cael eu cyflwyno i'w harchwilio.**
- **Dylid archwilio'r trwyddedau gyrru'r gyrwyr y bws mini o leiaf dwywaith y flwyddyn er mwyn cydymffurfio a 'Polisi Bws Mini' y Cyngor.**
- **Dylid archwilio trwyddedau gyrru'r gyrwyr sy'n llogi'r bws mini yn rheolaidd o leiaf dwywaith y flwyddyn ac archwilio trwyddedau gyrru'r gyrwyr sy'n llogi'r bws mini'n achlysurol cyn bod y llogi'n cychwyn.**

# YSGOL BOTWNNOG
## Addysg

Bwriad yr Archwiliad
Sicrhau fod trefniadau yn Ysgol Botwnnog er mwyn rheoli a lliniaru risgiau yn briodol ac yn unol â Rheoliadau Ariannol Ysgolion, Cyfarwyddiadau Estyn a gweithdrefnau perthnasol eraill.

Cwmpas yr Archwiliad
Archwiliwyd y prif feysydd gwariant ac incwm yn ôl y cofnod yng nghyfriflyfr 2008/09 a 2009/10 (Cedar). Profwyd hefyd trefniadau'r ysgol er mwyn rheoli ystod amrywiol o risgiau.

Prif Ddarganfyddiadau
Cynhaliwyd profion archwilio ar 95 o reolaethau mewnol. Dangosodd y profion fod rheolaethau mewnol da yn bodoli mewn 82 o'r meysydd hyn. Y prif ddarganfyddiadau yn deillio o'r archwiliad yw :

- Roedd saith o'r Llywodraethwyr heb gwblhau dogfen cofrestr buddiannau.
- Nid oes cofnod yn cael ei gadw o pryd y gwnaethpwyd yr arolygiad diogelwch diwethaf o'r Bws Mini, a gan bwy.
- Ni chedwir cofnod na chopïau o'r trwyddedau gyrru'r athrawon er mwyn cadarnhau eu bod yn gymwys i yrru'r bws.

**Barn yr Archwiliad**

**(B) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb ariannol yn Ysgol Botwnnog gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylid anfon y ffurflenni 'Arolwg Cyflog Blynyddol' sydd wedi eu harwyddo gan yr athro/athrawes a Chadeirydd y Llywodraethwyr i mewn i'r Uned Contractau a Chyflogau yn flynyddol.**

- **Dylid sicrhau fod cofrestr o ddiddordebau busnes y Llywodraethwyr, y Pennaeth ac unrhyw aelod arall o'r staff sy'n dylanwadu ar benderfyniadau ariannol yn cael ei ddiweddaru'n flynyddol.**

- **Dylid sicrhau fod unrhyw addasiadau a wneir i gyllidebau ysgolion yn cael eu mewnbynnu yn syth i daenlen monitro staff yr Uned Gyllid Datblygu.**

- **Dylid sicrhau fod y Llywodraethwyr yn adolygu'r ffioedd am ddefnydd cymunedol o'r ysgol a'r gwersi cerdd yn flynyddol.**

- **Dylai'r ysgol gynhyrchu taflen priodol ar gyfer cofnodi pwy a phryd y gwnaethpwyd yr arolygiad diogelwch o'r Bws Mini a chanlyniad yr adolygiad.**

**YSGOL DYFFRYN NANTLLE**
**Addysg**

Bwriad yr Archwiliad
Sicrhau fod trefniadau yn Ysgol Dyffryn Nantlle er mwyn rheoli a lliniaru risgiau yn briodol ac yn unol â Rheoliadau Ariannol Ysgolion, Cyfarwyddiadau Estyn a gweithdrefnau perthnasol eraill.

Cwmpas yr Archwiliad
Archwiliwyd y prif feysydd gwariant ac incwm yn ôl y cofnod yng nghyfriflyfr 2009/10 a 2010/11 (Cedar). Profwyd hefyd trefniadau'r ysgol er mwyn rheoli ystod amrywiol o risgiau.

Prif Ddarganfyddiadau
Cynhaliwyd profion archwilio ar 102 o reolaethau mewnol. Dangosodd y profion fod rheolaethau mewnol da yn bodoli mewn 91 o'r meysydd hyn. Y prif ddarganfyddiadau yn deillio o'r archwiliad yw bod angen :

- i'r Pennaeth sefydlu trefn er mwyn sicrhau fod y Penaethiaid Adrannau yn cadarnhau a chymeradwyo unrhyw newid a wneir i weithgaredd dysgu unrhyw ddisgybl yn ystod y flwyddyn.
- sicrhau wrth ddarparu manylion ar gyfer data CYBLD ym mis Ionawr pob blwyddyn, fod nifer y gweithgareddau yn cysoni gyda nifer y gweithgareddau a nodwyd ar y data CYBLD gwreiddiol ym mis Medi ac unrhyw weithgareddau ychwanegol rhwng Medi ac Ionawr.
- i'r sawl sydd yn gymwys i yrru'r bws sicrhau ei fod yn cofnodi ac yn ardystio fod y gwiriadau diogelwch wedi eu cynnal ar y bws.
- i'r ysgol archwilio trwyddedau yr unigolion sy'n gymwys i yrru'r bws yn unol â'r polisi Bws Mini.

**Barn yr Archwiliad**

**(B) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb ariannol yn Ysgol Dyffryn Nantlle gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylid sicrhau fod cofrestr o ddiddordebau busnes y Llywodraethwyr, y Pennaeth ac unrhyw aelod arall o'r staff sy'n dylanwadu ar benderfyniadau ariannol yn cael ei ddiweddaru'n flynyddol.**

- **Dylai'r Pennaeth sefydlu trefn er mwyn sicrhau fod y Penaethiaid Adrannau yn cadarnhau a chymeradwyo unrhyw newid a wneir i weithgaredd dysgu unrhyw ddisgybl yn ystod y flwyddyn.**

- **Dylid sicrhau wrth ddarparu manylion ar gyfer data CYBLD ym mis Ionawr pob blwyddyn, fod nifer y gweithgareddau yn cysoni gyda nifer y gweithgareddau a nodwyd ar y data CYBLD gwreiddiol ym mis Medi ac unrhyw weithgareddau ychwanegol rhwng Medi ac Ionawr.**

- **Dylai'r sawl sydd yn gymwys i yrru'r bws sicrhau ei fod yn cofnodi ac yn ardystio fod y gwiriadau diogelwch wedi eu cynnal ar y bws.**

# YSGOL GLAN Y MÔR
## Addysg

<u>Bwriad yr Archwiliad</u>
Sicrhau fod trefniadau yn Ysgol Glan y Môr er mwyn rheoli a lliniaru risgiau yn briodol ac yn unol â Rheoliadau Ariannol Ysgolion, Cyfarwyddiadau Estyn a gweithdrefnau perthnasol eraill.

<u>Cwmpas yr Archwiliad</u>
Archwiliwyd y prif feysydd gwariant ac incwm yn ôl y cofnod yng nghyfriflyfr 2009/10 a 2010/11 (Cedar). Profwyd hefyd trefniadau'r ysgol er mwyn rheoli ystod amrywiol o risgiau.

<u>Prif Ddarganfyddiadau</u>
Cynhaliwyd profion archwilio ar 90 o reolaethau mewnol. Dangosodd y profion fod rheolaethau mewnol da yn bodoli mewn 75 o'r meysydd hyn. Y prif ddarganfyddiadau yn deillio o'r archwiliad yw bod angen:

- i'r Penaethiaid Adran gwblhau 'Taflen Hysbysu Archeb' pob tro yr archebir nwyddau/gwasanaethau, gan sicrhau eu bod yn eu harwyddo a'u dyddio;
- i'r sawl sydd wedi cwblhau'r 'Taflen Hysbysu Archeb' arwyddo'r anfoneb/taflen er mwyn ardystio eu bod wedi derbyn y nwyddau/gwasanaethau a'u bod yn cytuno gyda'r pris a ddangosir ar yr anfoneb;
- i Llywodraethwyr adolygu'r ffioedd am ddefnydd cymunedol o'r ysgol yn flynyddol.

**<u>Barn yr Archwiliad</u>**

**(B)** **Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb ariannol yn Ysgol Glan Y Mor gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylai'r Penaethiaid Adrannau gwblhau 'Taflen Hysbysu Archeb' pob tro yr archebir nwyddau/gwasanaeth gan sicrhau eu bod yn eu harwyddo a'u dyddio.**
- **Dylai'r sawl sydd wedi cwblhau'r 'Taflen Hysbysu Archeb' arwyddo'r anfoneb/taflen er mwyn ardystio eu bod wedi derbyn y nwyddau/gwasanaeth a'u bod yn cytuno gyda'r pris a ddangosir ar yr anfoneb.**
- **Dylid sicrhau fod gan yr ysgol drefn o farcio offer fel eiddo'r ysgol.**
- **Dylid ymdrechu i newid y trwyddedeiriau i'r system FMS yn rheolaidd.**
- **Dylai'r ysgol ystyried creu polisi trwyddedau meddalwedd a sicrhau fod pob aelod o staff yr ysgol yn derbyn copi o'r polisi.**

# YSGOL TRYFAN
## Addysg

Bwriad yr Archwiliad
Sicrhau fod trefniadau yn Ysgol Tryfan er mwyn rheoli a lliniaru risgiau yn briodol ac yn unol â Rheoliadau Ariannol Ysgolion, Cyfarwyddiadau Estyn a gweithdrefnau perthnasol eraill.

Cwmpas yr Archwiliad
Archwiliwyd y prif feysydd gwariant ac incwm yn ôl y cofnod yng nghyfriflyfr 2008/09 a 2009/10 (Cedar). Profwyd hefyd trefniadau'r ysgol er mwyn rheoli ystod amrywiol o risgiau.

Prif Ddarganfyddiadau
Cynhaliwyd profion archwilio ar 97 o reolaethau mewnol. Dangosodd y profion fod rheolaethau mewnol da yn bodoli mewn 92 o'r meysydd hyn. Y prif ddarganfyddiadau yn deillio o'r archwiliad yw bod yr ysgol angen :

- penodi un Llywodraethwr A.A.Ll arall er mwyn cydymffurfio gyda'r 'Offeryn Llywodraethu'.
- i'r cytundeb llogi cael ei arwyddo gan y llogwr cyn i'r cyfnod llogi cychwyn.
- trefn bendant er mwyn sicrhau fod y Penaethiaid Adrannau yn cadarnhau a chymeradwyo unrhyw newid a wneir i weithgaredd dysgu unrhyw ddisgybl yn ystod y flwyddyn.

**Barn yr Archwiliad**

**(B) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb ariannol yn Ysgol Tryfan gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylai'r ysgol ymdrechu i benodi un Llywodraethwr A.A.Ll arall er mwyn cydymffurfio gyda'r Offeryn.**

- **Dylid sicrhau fod archeb yn cael eu codi cyn derbyn y gwasanaeth/nwyddau. Os bydd angen archebu ar lafar fel mater o frys, yna dylid cadarnhau hynny yn syth drwy archeb ysgrifenedig.**

- **Dylai copi o'r cytundeb gael ei arwyddo gan y llogwr cyn i'r sesiwn o logi cychwyn.**

- **Dylai'r ysgol greu polisi trwyddedau meddalwedd a sicrhau fod pob aelod o staff yr ysgol yn derbyn copi o'r polisi.**

- **Dylai'r Pennaeth sefydlu trefn er mwyn sicrhau fod y Penaethiaid Adrannau yn cadarnhau a chymeradwyo unrhyw newid a wneir i'r gweithgaredd dysgu unrhyw ddisgybl yn ystod y flwyddyn.**

# GWAREDU GWASTRAFF CYFRINACHOL
## Corfforaethol

Bwriad yr Archwiliad

Bwriad yr archwiliad yw sicrhau bod gan y Cyngor bolisi a bod gweithdrefnau priodol wedi eu sefydlu ar gyfer gwaredu gwastraff cyfrinachol y Cyngor.

Cwmpas yr Archwiliad

Adolygu polisïau a gweithdrefnau gwaredu gwastraff cyfrinachol y Cyngor i sicrhau eu bod yn briodol a bod swyddogion y Cyngor yn ei dilyn yn gyson.

Prif Ddarganfyddiadau

Gwelwyd fod y drefn gwaredu gwastraff cyfrinachol presennol sydd wedi cael ei sefydlu heb dderbyn sylw priodol, gan fod llawer o wasanaethau'r Cyngor yn parhau i archebu sachau a phrosesu'r anfonebau gwaredu gwastraff cyfrinachol eu hunain, yn uniongyrchol drwy'r cwmni gwaredu gwastraff, yn hytrach nag archebu'r sachau a phrosesu'r anfonebau drwy'r Uned Cefnogol fel sydd yn ofynnol yn y polisi. Ar hyn o bryd, nid oes rheolaethau mewn lle i atal swyddogion rhag archebu'r sachau hynny eu hunain. Gwelwyd hefyd bod anghysondebau yn bodoli gyda'r trefniadau cyfredol a gwelwyd bod camgymeriadau wrth brosesu anfonebau megis cam-godio a diffyg cynnal gwiriadau priodol cyn talu anfonebau sydd wedi arwain at wasanaeth yn talu o'u cyllideb am ddinistrio gwastraff gwasanaeth arall.

Fodd bynnag, yn ystod yr archwiliad, darganfuwyd bod trefniadau newydd ar y gweill i wella'r drefn bresennol. Sefydlwyd y trefniadau hyn gan y Rheolwr Cyfleusterau Swyddfa yn deillio o drafodaeth gyda'r Rheolwr Gwybodaeth. Nodwyd bod cytundeb wedi'i sefydlu rhwng y Cyngor a'r darparwr i dderbyn archebion gan yr Uned Cefnogol yn unig, yn ogystal â bod yr holl anfonebau yn cael eu hanfon yn uniongyrchol i'r Uned Cefnogol i'w prosesu. Cadarnhaodd y Rheolwr Cyfleusterau Swyddfa bod y drefn newydd mewn lle i sicrhau bod atebolrwydd ar gyfer pob cofnod ac y bydd yn sicrhau bod y trefniadau'n cael eu gweithredu'n gyson ar draws y Cyngor.

**Barn yr Archwiliad**

**(B) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb wrth waredu gwastraff cyfrinachol gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylid sicrhau bod yr Uned Cefnogol yn derbyn tystysgrif dinistrio fel rhan o'r weithdrefn newydd.**
- **Dylid sicrhau bod yr Uned Cefnogol yn cynnal gwiriadau priodol ar yr anfonebau i sicrhau nad yw'r nifer a anfonebir yn fwy na'r hyn a archebwyd. Yn ddelfrydol, dylid cofnodi ar yr archeb arhosol, gyfeirnod yr anfoneb a'r nifer cyfatebol o sachau.**
- **Unwaith y bydd y trefniadau newydd a chanllawiau wedi eu llunio, yna dylid hyrwyddo'r trefniadau i holl staff y Cyngor drwy ddefenyddio'r mewnrwyd neu godi ymwybyddiaeth trwy e-bost gan "Cyfathrebu mewnol".**

# SYSTEM E-DENDRO
## Corfforaethol

Bwriad yr Archwiliad

Bwriad yr archwiliad yw sicrhau fod rheolaethau mewnol yn bodoli yn y broses o dendro'n electroneg a sicrhau fod yr egwyddorion sy'n hanfodol yn y broses bapur hefyd yn bodoli yn y broses electroneg.

Cwmpas yr Archwiliad

Gwirio'r system electroneg i sicrhau fod yr egwyddorion perthnasol yn bodoli a bod trefniadau arferol tendro hefyd yn cael eu dilyn, h.y. trefniadau hysbysebu a.y.b.

Prif Ddarganfyddiadau

Gwelwyd yn ystod yr archwiliad fod enghreifftiau o ymarfer da i'w gweld yn y broses o dendro dros y we (e-dendro). Fodd bynnag, mae hefyd agweddau lle gellid tynhau ychydig ar y rheolaethau mewnol gan gynnwys y canlynol:

- Sicrhau fod yr adrannau'n dilyn rheolau tendro cywir.
- Sicrhau fod pob ymdrech yn cael ei wneud i sicrhau nad oes cyflenwyr yn methu'r cyfle i gystadlu am waith gyda'r Cyngor o ganlyniad iddynt fethu agor dogfennau tendro sydd wedi eu hatodi (e.e. Word, Excel) neu heb dechnoleg ddigonol i gael mynediad i'r system.
- Sicrhau fod y gofrestr tendrau corfforaethol yn cael ei ddiweddaru'n gyson.
- Sicrhau nad yw'n bosib adnabod y cwmnïoedd sydd wedi ymateb i dendr cyn y dyddiad ac amser cau.

**Barn yr Archwiliad**

**(B) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb yn y System e-Dendro gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylid sicrhau nad oes dryswch rhwng y broses o gasglu dyfynbrisiau a'r broses tendro. Yn ogystal, dylid sicrhau fod yr adrannau'n dilyn y rheolau tendro perthnasol.**

- **Dylid sicrhau fod dogfennau sy'n cael eu hatodi i'r system mewn ffurf pdf lle'n ymarferol a bod nodyn yn y 'Qualification Questionnaire' i ymgeiswyr i wneud yr un fath os yn bosib. Yn ogystal, dylid ceisio annog swyddogion y Cyngor i roi dogfennau tendro yn 'web-based' fel nad oes rhaid rhoi atodiadau mewn ffurf wahanol i pdf.**

- **Dylid sicrhau nad yw'n bosib adnabod y cwmnïau sydd wedi ymateb i dendr cyn y dyddiad ac amser cau.**

- **Dylid atodi unrhyw ddogfennaeth berthnasol i'r system e.e. taflenni sgorio.**

- **Ni ddylid nodi dyddiad penodi hyd nes fydd y cyfnod llonydd "Alcatel" wedi dod i ben ar gyfer tendrau sydd uwchlaw trothwy OJEU. Bydd hyn hefyd yn ymarfer da ar gyfer tendrau sydd islaw'r trothwy.**

# CYFUNDREFN A PHROSESAU CYFALAF
## Cyllid

Bwriad yr Archwiliad

Bwriad yr archwiliad yw adolygu gweithdrefnau corfforaethol materion cyfalaf yn ogystal â'r gofrestr asedion.

Cwmpas yr Archwiliad

Adolygu dogfennau a chofnodion y gyfundrefn a phrosesau cyfalaf a'r gofrestr asedion ar gyfer y flwyddyn ariannol 2009/2010 gan gynnwys y system ariannol Cedar ynghyd ag adolygu trefniadau cyflwyno bidiau a monitro prosiectau.

Prif Ddarganfyddiadau

Prif ddarganfyddiadau'r archwiliad yma yw bod diffyg derbyn proffiliau gwariant o ansawdd derbyniol yn erbyn cynlluniau cyfalaf y Cyngor er mwyn galluogi rheolwyr fonitro gwariant yn erbyn pob cynllun trwy gydol y flwyddyn ariannol. Yn ogystal, gwelwyd nad yw'r protocol cyfalaf wedi ei gymeradwyo'n ffurfiol a dylid symud ymlaen gyda'r trefniadau i'w gyhoeddi. Mae cynnydd sylweddol wedi ei wneud o safbwynt y gofrestr asedion gyda'r Cyngor wedi buddsoddi yn system IPF Asset Manager.net er bod rhai anawsterau wedi bodoli ar y cychwyn gyda'r meddalwedd.
Mynegodd y Rheolwyr Cyfrif Perfformiad nad oeddynt yn derbyn cardiau record gan reolwyr prosiectau a gymeradwywyd i'w herio, fodd bynnag, gwelwyd mai eu cyfrifoldeb hwy yn eu rôl sicrwydd ansawdd yw cynorthwyo i lunio'r cardiau record hyn. Yn amlwg, mae'r cyfrifoldebau hyn yn gwrthdaro - ni ellir herio yr hyn maent wedi ei lunio eu hunain hyd yn oed os oes cerdyn record yn bodoli.
Gwelwyd hefyd fod cynlluniau cyfalaf sydd wedi bod yn destun bidio cyfalaf yn derbyn, yn ddamcaniaethol, llawer mwy o graffu na chynlluniau cyfalaf eraill y Cyngor. Mae hyn er gwaethaf y ffaith mai canran fechan o gynlluniau cyfalaf yr Awdurdod y maent yn eu cynrychioli.

**Barn yr Archwiliad**

**(B) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb ariannol yn nhrefniadau'r gyfundrefn a phrosesau cyfalaf gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylid parhau gyda'r trefniadau i gyhoeddi'r protocol cyfalaf yn ogystal â sefydlu Grwpiau/paneli Cyfalaf ym mhob Adran.**
- **Dylid diweddaru Polisi Gwaredu Eiddo yr Uned Eiddo er mwyn cyd-fynd â Rheolau Gweithdrefnau Ariannol y Cyngor o safbwynt derbyniadau cyfalaf.**
- **Dylid cynnal adolygiad "Gwerth am Arian" i gynnwys cyfrifoldebau a dyletswyddau'r Rheolwyr Cyfrif Perfformiad i ystyried y gwerth ychwanegol a gynigir drwy ymglymu'r Rheolwyr Cyfrif Perfformiad gyda nifer cyfyngedig o gynlluniau cyfalaf.**
- **Dylid sicrhau nad oes dyblygu gwaith a dyletswyddau yn y broses o dderbyn proffiliau gwariant cyfalaf.**
- **Er mwyn sicrhau bod rheolwyr y Cyngor yn ymwybodol o'r drefn am wneud cais am gyllideb cyfalaf, dylid gosod y canllawiau a'r dogfennau perthnasol ar y fewnrwyd.**

# PARATOADAU AR GYFER IFRS - PRYDLESAU
## Cyllid

Bwriad yr Archwiliad

O'r flwyddyn ariannol 2010/11 ymlaen, mae gofyn i Awdurdodau Lleol gydymffurfio gyda IFRS - International Financial Reporting Standards (SAAR - Safonau Adroddiadau Ariannol Rhyngwladol) wrth baratoi eu datganiadau ariannol. Un o'r newidiadau sy'n rhaid eu mabwysiadu oherwydd gofynion IFRS yw'r ffordd mae'r Cyngor yn cyfrifo am brydlesau. Bwriad yr archwiliad yma yw sicrhau bod Cyngor Gwynedd yn cymryd camau priodol i weithredu ar y newid yma er mwyn cyflawni'r gofynion newydd.

Cwmpas yr Archwiliad

Mae cwmpas yr archwiliad yn cynnwys gwirio os yw Cyngor Gwynedd yn trin prydlesau yn eu cyfrifon ariannol yn unol â safon IAS17 fel rhan o'r IFRS, gan gynnwys adolygu'r trefniadau ar gyfer casglu'r wybodaeth parthed prydlesau a'r ddogfennaeth berthnasol. Nid yw cwmpas yr archwiliad yn cynnwys gwirio cywirdeb ail-ddatgan y fantolen ar gyfer 2009/10 oherwydd bydd hyn yn syrthio i gylch gwaith Swyddfa Archwilio Cymru.

Prif Ddarganfyddiadau

Y prif ddarganfyddiadau sydd yn deillio o'r archwiliad yw'r diffyg sicrwydd bod pob prydles wedi ei hadnabod yn y cyfrifon. Mae hyn yn seiliedig ar y ffaith bod cyfrifon yr Uned Gyfrifeg yn ddibynnol ar wybodaeth a dderbynnir gan Swyddogion ar draws y Cyngor megis ysgolion a chartrefi preswyl. Serch ymdrech yr Uned Cyfrifeg i dderbyn gwybodaeth am yr amrywiol brydlesau gan wasanaethau/adrannau, siomedig oedd yr ymateb. Gwelwyd hefyd yn gyffredinol bod y prosiect paratoi i fabwysiadu IFRS wedi llithro i gymharu â'r amserlen wreiddiol ond bod ymdrech ddigonol yn cael ei wneud i leihau yr oediad yma.

**Barn yr Archwiliad**

**(B) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb ariannol ym mharatoadau IFRS - Prydlesau gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Er mwyn helpu rheolwyr heb gefndir ariannol i adnabod prydlesau, ac i godi ymwybyddiaeth yn gyffredinol, gellir trafod y sefyllfa a'r trefniadau yng nghyfarfodydd y Coleg Uwch Rheolwyr a'r Fforwm Rheolwyr Canol.**

- **Codi ymwybyddiaeth i gyfathrebu manylion unrhyw brydles i'r Gwasanaethau perthnasol, yn benodol Cyfreithiol a Cyllid.**

# GWEITHREDU NEWIDIADAU CYFLOG
## Cyllid

Bwriad yr Archwiliad

Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau fod prosesau mewn lle ar gyfer derbyn a chofnodi manylion newidiadau cyflogau staff, gan gynnwys penodi/terfynu staff, codi/gostyngu graddfeydd cyflog neu addasu manylion personol.

Cwmpas yr Archwiliad

Adolygwyd y gweithdrefnau cyffredinol sydd mewn lle ar gyfer gweithredu newidiadau cyflog, gan gynnal gwiriadau ar y cyfarwyddiadau sydd wedi eu derbyn ar gyfer yr holl gyflogresi.

Prif Ddarganfyddiadau

Gwelwyd fod trefniadau swyddogol mewn lle ar gyfer rhoi cyfarwyddiadau newid data sefydlog i'r Uned Cyflogau. Nodwyd fod y newidiadau sydd wedi eu hadolygu yn ystod y gwaith maes wedi eu cwblhau mewn modd priodol. Gwelwyd fod y ddogfennaeth a rhai o'r agweddau eraill sydd mewn lle yn seiliedig ar y strwythur staffio blaenorol y Cyngor (h.y. y "Cyfadrannau" a.y.b.) a bod angen eu diweddaru.

Ni welwyd achos lle na fu i'r Uned Cyflogau weithredu ar gyfarwyddyd newid neu oedi mewn gweithredu.

Fodd bynnag, fe nodwyd nifer o achosion ble nad oedd y cyfarwyddiadau wedi eu derbyn gan yr Uned Cyflogau erbyn yr adeg lle dylai fod y newid yn weithredol mewn gwirionedd. 'Roedd achosion o benodiadau, newid telerau a terfyniadau wedi eu derbyn ar ddyddiad oedd yn gyfnod sylweddol yn dilyn y dyddiad gweithredadwy. Ni brofwyd achos o ordalu aelod o staff yn deillio o hyn yn ystod y gwaith maes. Nodwyd fod yr unigolion dan sylw yn cael eu talu yn seiliedig ar gwblhau amserlen gwaith a bod nifer ohonynt yn staff achlysurol. Derbyniwyd fod cyfiawnhad rhesymol am rai o'r achosion mewn cwestiwn, e.e. terfyniad swydd achlysurol wedi ei ddyddio ar yr adeg y bu i'r gweithiwr dderbyn cyflog ddiwethaf. Teimlai'r Archwilwyr y byddai o fudd tynnu sylw tuag at y mater yma fodd bynnag gan fod amcan i drosi mwy o staff i dderbyn taliadau sylfaenol heb yr angen i gwblhau amserlenni. Noder mai'r prif ffactor ar gyfer osgoi gordaliad yn yr achosion dan sylw oedd y ffaith nad oedd amserlen wedi ei gyflwyno wedi i'r swyddi derfynu. Mae angen i reolwyr neu gynrychiolwyr gweinyddol yr unedau y byddai'r trosiad arfaethedig yn eu heffeithio fod â hyder y byddent mewn sefyllfa i adrodd am newidiadau cyflog, ac yn arbennig terfyniadau, mewn modd cywir a phrydlon gan na fyddai'r drefn o gyflwyno amserlenni mewn lle i atal gordaliad.

**Barn yr Archwiliad**

**(B) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol yn y rheolaethau mewn lle, fodd bynnag mae rhai agweddau y gellir eu gwella.**

# TALIADAU BUDD-DAL YN DILYN TROSGLWYDDIAD Y STOC DAI
## Cyllid

Bwriad yr Archwiliad

Bwriad yr archwiliad yw sicrhau bod taliadau budd-dal tai ar gyfer tenantiaid Cartrefi Cymunedol Gwynedd yn cael eu gweithredu'n briodol yn dilyn trosglwyddiad stoc tai'r Cyngor.

Cwmpas yr Archwiliad

Adolygu'r trefniadau ar gyfer trosglwyddo'r stoc dai ynghyd ag ymholi pa brofion a wnaethpwyd ar y system Academy i sicrhau bod y manylion wedi eu diweddaru'n briodol a chywir. Adolygu'r gweithdrefnau sydd wedi eu sefydlu ar gyfer anfon manylion taliadau budd-dal i CCG a'r Gwasanaeth Tai ar gyfer y sefydliadau hynny sydd yn parhau o dan berchnogaeth Cyngor Gwynedd (CG), a sicrhau bod trefniadau priodol ar gyfer cynnal gwiriadau ar gyfansymiau rheolaeth.

Prif Ddarganfyddiadau

Darganfuwyd bod trefniadau priodol wedi eu sefydlu gan yr Uned Budd-daliadau ar gyfer trosglwyddo taliadau budd-dal yn dilyn penderfyniad i drosglwyddo'r stoc dai'r Cyngor i Gartrefi Cymunedol Gwynedd yn Ebrill 2010.

Gwelwyd bod profion digonol wedi eu cynnal ar y data ac y penodwyd ymgynghorwyr o gwmni Capita i ymgymryd â'r gwaith ac i gynorthwyo'r swyddogion yn ystod y cyfnod yn arwain at y trosglwyddiad. Gwelwyd bod amserlen addas wedi ei pharatoi ar gyfer y trosglwyddiad a bod y gwaith wedi ei gynllunio mewn modd proffesiynol. Yn dilyn y trosglwyddiad, gwelwyd bod rhai o denantiaid CCG wedi derbyn taliadau budd-dal am gyfnodau cyn y dyddiad trosglwyddo, sef 12fed o Ebrill. Digwyddodd hyn oherwydd ôl-groniad o geisiadau ac oherwydd amgylchiadau oedd yn effeithio ar brosesu'r taliadau budd-dal e.e. newidiadau budd-dal ddim wedi eu hysbysu mewn pryd, delio â 'suspended claim' ayb. Cafodd hyn effaith ar brydlondeb postio taliadau budd-dal ar gyfer y Gwasanaeth Tai oherwydd roedd taliadau oedd yn berthnasol i CCG yn ymddangos ar yr un adroddiad. Bu i'r Uwch Ddadansoddydd Rhaglenydd o'r Gwasanaeth Technoleg Gwybodaeth ymgeisio i wahaniaethu'r adroddiad fel bod y taliadau'n cael eu prosesu i'r man cywir. Er hynny, gwelwyd bod yr Uned yn parhau i ddarganfod anghysondebau o fewn y cysoniadau talu taliadau budd-dal i Wasanaeth Tai'r Cyngor. Yn ogystal, ymddengys nad oes swyddog penodol yn monitro'r cyfrifon rhenti ar gyfer Gwasanaeth Tai'r Cyngor.

**Barn yr Archwiliad**

**(B) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb ariannol yn nhrefniadau Taliadau budd-dal yn dilyn trosglwyddiad y stoc dai gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae prif argymhelliad yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylai Gwasanaeth Tai'r Cyngor ddynodi swyddog cyfrifol i sicrhau bod taliadau budd-dal yn cael eu derbyn yn rheolaidd a hysbysu'r Uned Budd-daliadau os oes unrhyw ymholiadau neu anghysondebau.**

# SYSTEM RHEOLAETH GOFAL CARTREF
## Darparu a Hamdden

Bwriad yr Archwiliad

Sicrhau bod yr Awdurdod hefo rheolaethau mewnol cadarn o fewn y system CACI fel bod y client yn derbyn y gwasanaeth cywir ar yr amseroedd priodol, a'r swyddogion yn derbyn taliadau cywir trwy'r broses broses amserlenni a chostau teithio.

Cwmpas yr Archwiliad

Mae'r archwiliad yn canolbwyntio ar y rheolaethau o fewn y system CACI ac nid yn adolygiad o geisiadau amserlenni a chostau teithio. Gan nad yw'r cyfrifiaduron llaw (PDAs) mewn defnydd gan y gofalwyr eto, nid yw'r archwiliad yma yn cwmpasu'r defnydd o'r teclynau hyn ychwaith.

Prif Ddarganfyddiadau

Yr unig darganfyddiad o'r archwiliad yw bod dim trefniadau, lle mae'r copiau wrth gefn yn cael eu llwytho i sicrhau bod y data wedi ei dderbyn yn gywir. Mae hyn yn cynyddu'r risg bod creu copiau wrth gefn wedi methu ac o ganlyniad llygru'r data neu ei golli.

**Barn yr Archwiliad**

**(A) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd o reolaethau mewnol yn y System Rheolaeth Gofal Cartref gan y gellir dibynnu eu bod mewn lle ac yn cael eu dilyn. Fodd bynnag, mae un argymhelliad:**

- **Mae angen i swyddogion sy'n gyfrifol am y system rheolaeth gofal cartref gyfathrebu gyda'r swyddogion TG er mwyn sicrhau cytundeb ar drefniadau lle mae copiau wrth gefn yn cael eu llwytho i sicrhau bod y data wedi ei dderbyn yn gywir. Dylid cadw cofnod ysgrifenedig o'r dyddiadau y mae hyn yn digwydd fel tystiolaeth.**

# CANOLFAN HAMDDEN GLAN WNION
## Darparu a Hamdden

Bwriad yr Archwiliad
Sicrhau bod rheolaethau mewnol yn bodoli yn y Ganolfan er mwyn lliniaru'r risgiau gweithredol, a bod y rheolaethau hyn yn cael eu gweithredu.

Cwmpas yr Archwiliad
Adolygu samplau o drafodion ariannol ar gyfer flwyddyn ariannol 2009/10 a dechrau'r flwyddyn ariannol 2010/11 yn ogystal ag edrych ar y rheolaethau sy'n bodoli ar gyfer rheoli stoc. Sicrhau hefyd bod y Ganolfan yn cydymffurfio ag unrhyw ofynion iechyd a diogelwch perthnasol.

Prif Ddarganfyddiadau
Ar y cyfan, gwelwyd yn ystod yr archwiliad hwn bod achosion o reolaethau da yn bodoli mewn trefniadau diogelwch a threfniadau gwirio offer. Fodd bynnag, gwelwyd bod llawer o ddiffygion wrth edrych ar yr ochr ariannol ac arwyddo dogfennau.

**Barn yr Archwiliad**

**(C) Barn yr Archwiliad yw y na ellir datgan sicrwydd o briodoldeb ariannol yng Nghanolfan Hamdden Glan Wnion gan na ellir dibynnu ar y rheolaethau mewn lle, ond ni ddarganfuwyd colledion / twyll yn deillio o'r gwendidau rheolaeth. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylid sicrhau fod y dderbynneb sy'n dangos yr ad-daliad gyda llofnod y cwsmer ac aelod o staff ar gyfer pob ad-daliad.**
- **Dylai pob aelod o staff sicrhau eu bod yn logio allan o'r system ar un cyfrifiadur os ydynt yn bwriadu mynd i ddefnyddio cyfrifiadur arall.**
- **Dylid sicrhau bod dau swyddog yn llofnodi'r llyfr talu i mewn i'r banc ar bob achlysur.**
- **Dylid sicrhau bod esboniad digonol ar gyfer pob achlysur lle mae tan fancio o £3.00 neu fwy.**
- **Dylai dau swyddog sy'n ymglymedig â'r broses bancio lofnodi'r llyfr talu i mewn i'r banc a'r Ffurflen Cofnodi Bancio i gadarnhau fod y wybodaeth yn gywir.**
- **Dylid sicrhau bod ffurflen colled ac elw yn cysoni gydag adroddiadau diwedd dydd a bod unrhyw anghysondeb sylweddol e.e. dros £10 yn cael ei adrodd i Uwch Reolwyr gydag eglurhad clir a phendant.**
- **Dylid sicrhau bod ffurflen 'Telerau ac Amodau Pas Iechyd Gwynedd' yn cael ei arwyddo a'i ddyddio gan bob aelod yn ddi-ffael ac yn cael ei gadw ar ffeil yn y Ganolfan.**

# CANOLFAN HAMDDEN GLASLYN
## Darparu a Hamdden

Bwriad yr Archwiliad
Sicrhau bod rheolaethau mewnol yn bodoli yn y Ganolfan er mwyn lliniaru'r risgiau gweithredol, a bod y rheolaethau hyn yn cael eu gweithredu.

Cwmpas yr Archwiliad
Adolygu samplau o drafodion ariannol ar gyfer flwyddyn ariannol 2009/10 a dechrau'r flwyddyn ariannol 2010/11 yn ogystal ag edrych ar y rheolaethau sy'n bodoli ar gyfer rheoli stoc. Sicrhau hefyd bod y Ganolfan yn cydymffurfio ag unrhyw ofynion iechyd a diogelwch perthnasol.

Prif Ddarganfyddiadau
Ar y cyfan, gwelwyd yn ystod yr archwiliad hwn bod rhai achosion o reolaethau da iawn yn bodoli mewn trefniadau ariannol a threfniadau arwyddo dogfennau. Fodd bynnag, gwelwyd bod rhai diffygion wrth edrych ar drefniadau'r rhestr eiddo, ac arwyddo dogfennau ariannol.

**Barn yr Archwiliad**

**(B) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb ariannol yng Nghanolfan Hamdden Glaslyn gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylid sicrhau bod dau swyddog yn llofnodi'r Llyfr talu mewn i'r banc ar bob achlysur.**
- **Dylai pob ymdrech gael ei wneud gan swyddogion i sicrhau cywirdeb yr arian a gasglwyd â'i gyfeirebu i'r côd cywir yn y cyfriflyfr, fydd yn lleihau'r defnydd o'r cyfrif gwarged / diffyg.**
- **Dylid sicrhau bod ffurflenni colled ac elw yn cael eu cynhyrchu yn fisol ac yn cysoni gydag adroddiadau diwedd dydd ar gyfer holl ffynonellau incwm amrywiol.**
- **Dylai swm y cyfrif 'dal' J999 SJ79 fod gyda balans o £0.00 ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol ac felly mae angen clirio'r credyd sy'n sefyll ers y flwyddyn ariannol 2008/09 er mwyn gwneud hyn.**
- **Dylid sicrhau bod trefn briodol ar ddelio gydag anfonebau na thalwyd i'r Ganolfan yn ystod y flwyddyn.**
- **Dylid sicrhau nad yw'r lefel gwariant a ragbennwyd sef dwy ran o dair o gyfanswm imprest yn cael ei rhagori cyn gwneud cais am ad-daliad imprest.**
- **Dylid sicrhau bod y rhestr eiddo yn cael ei lofnodi â'i ddyddio ar ôl ei wirio yn flynyddol, er mwyn cadarnhau bod y rhestr yn gywir a chyfredol.**
- **Dylid sicrhau bod larwm tân yn cael eu profi'n wythnosol yn unol â Pholisi Tân a Gweithdrefnau Gwacau.**

# CANOLFAN HAMDDEN PLAS SILYN
## Darparu a Hamdden

Bwriad yr Archwiliad
Sicrhau bod rheolaethau mewnol yn bodoli yn y Ganolfan er mwyn lliniaru'r risgiau gweithredol, a bod y rheolaethau hyn yn cael eu gweithredu.

Cwmpas yr Archwiliad
Adolygu samplau o drafodion ariannol ar gyfer flwyddyn ariannol 2009/10 a dechrau'r flwyddyn ariannol 2010/11 yn ogystal ag edrych ar y rheolaethau sy'n bodoli ar gyfer rheoli stoc. Sicrhau hefyd bod y Ganolfan yn cydymffurfio ag unrhyw ofynion iechyd a diogelwch perthnasol.

Prif Ddarganfyddiadau
Ar y cyfan, gwelwyd yn ystod yr archwiliad hwn bod rhai achosion o reolaethau da yn bodoli mewn trefniadau ariannol a threfniadau gwirio offer. Fodd bynnag, gwelwyd bod llawer o ddiffygion wrth edrych ar yr ochr trefniadau diogelwch ac arwyddo dogfennau.

**Barn yr Archwiliad**

**(C) Barn yr Archwiliad yw y na ellir datgan sicrwydd o briodoldeb ariannol yn Canolfan Hamdden Plas Silyn gan na ellir dibynnu ar y rheolaethau mewn lle, ond ni ddarganfuwyd colledion / twyll yn deillio o'r gwendidau rheolaeth. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylid sicrhau fod y derbynebau sy'n dangos yr ad-daliadau gyda llofnod y cwsmer ac aelod o staff ar gyfer pob ad-daliad.**
- **Dylid sicrhau bod yr adroddiadau ar ad-daliadau yn cael eu llofnodi a'i dyddio gan aelod o staff i gadarnhau eu bod wedi cael eu gwirio.**
- **Dylai bod adroddiadau logio mewn ac logio allan o'r cyfrifiadur gael ei wirio, llofnodi a'i dyddio yn fisol gan y Rheolwr neu Rheolwr ar Ddyletswydd yn cadarnhau bod y gwiriadau priodol wedi cymryd lle ar sail sampl.**
- **Dylai pob aelod o staff sicrhau eu bod yn logio allan o'r system cyfrifiadurol ar un cyfrifiadur os ydynt yn bwriadu mynd i ddefnyddio cyfrifiadur arall.**
- **Dylid sicrhau bod dau swyddog yn llofnodi'r Ffurflen Cymodi Arian ar bob achlysur.**
- **Dylai pob ymdrech gael ei wneud gan swyddogion i sicrhau cywirdeb yr arian a gasglwyd â'i gyfeirebu i'r côd cywir yn y cyfriflyfr, fydd yn lleihau'r defnydd o'r cyfrif gwarged / diffyg.**
- **Dylid sicrhau bod adroddiadau "Point of Sale Transaction" yn cael eu llofnodi a'u ddyddio i gadarnhau eu bod wedi cael eu gwirio.**
- **Dylid sicrhau bod esboniad digonol ar gyfer pob achlysur lle mae tan fancio o £3.00 neu fwy.**

# YR ARGRAFFDY
## Democratiaeth a Chyfreithiol

Bwriad yr Archwiliad

Bwriad yr archwiliad yw cynorthwyo'r Gwasanaeth Democratiaeth a Chyfreithiol yn eu harolwg o Argraffdy'r Cyngor. Bydd yr arolwg yn gwerthuso effeithlonrwydd yr Argraffdy ynghyd a'i rôl gyfredol o fewn y Cyngor yn ogystal â'i rôl i'r dyfodol.

Cwmpas yr Archwiliad

Cwmpas yr archwiliad yw adolygu gwariant yr Argraffdy ynghyd â dadansoddi gwariant gwasanaethau unigol ar waith argraffu a wnaethpwyd gan gwmnïau allanol. Yn ogystal, adolygu'r cyfanswm o waith argraffu a gyflwynwyd i gwmnïau allanol am flynyddoedd ariannol 2008-09 a 2009-10 ac ar gyfer sampl o anfonebau, ymholi'r rheolwr perthnasol am y rhesymeg dros ddyrannu'r gwaith i gwmni allanol yn hytrach nag Argraffdy'r Cyngor.

Prif Ddarganfyddiadau

Darganfuwyd bod oddeutu gwerth £368,000 o waith argraffu yn cael ei ddyroddi i gwmnïau allanol yn flynyddol gyda rhai cwmnïau yn elwa yn eithaf sylweddol. Gwnaethpwyd ymgais i ddarganfod y rhesymau dros allanoli'r gwaith argraffu drwy ymholi trawsdoriad o swyddogion ar draws gwasanaethau'r Cyngor. Y prif resymau a fynegwyd dros beidio defnyddio'r argraffdy oedd:

- Methiant ar ran yr Argraffdy i gyflawni'r gwaith o fewn amser
- Ddim yn ymwybodol bod gan yr Argraffdy y gallu i ymgymryd â'r gwaith
- Diffyg peiriannau priodol ar gyfer cwblhau rhai tasgau
- Diffyg cyfarpar addas ar gyfer dosbarthu e.e. street sort

Ym mis Tachwedd 2007, dosbarthwyd polisi ar ddefnydd o'r Argraffdy i Benaethiaid Gwasanaeth y cyfnod hwnnw. Fodd bynnag, ni fabwysiadwyd y polisi yn ffurfiol, ac felly gwywyd ei ddylanwad dros amser. Golyga hyn felly nad yw swyddogion cyfredol yn ymwybodol o'r polisi ac yn parhau i gysylltu'n uniongyrchol â chwmnïau allanol a all olygu bod posibilrwydd o dalu mwy am waith ynghyd â cholli arbenigedd mewnol.

Darganfuwyd bod mwyafrif y swyddogion a ymholwyd yn fodlon gyda'r gwasanaeth maent wedi ei dderbyn gan yr Argraffdy a bod y cyngor ar waith argraffu cymhleth a dderbyniwyd gan swyddogion yr Argraffdy'n cael ei werthfawrogi'n fawr.

**Wrth benderfynu tynged a dyfodol yr Argraffdy dylid rhoi ystyriaeth i'r argymhellion canlynol:**

- **Dylai bod y Gwasanaeth Democratiaeth yn ystyried sefydlu polisi ffurfiol ar gyfer defnydd o'r Argraffdy.**

- **Dylai Tîm Arolwg yr Argraffdy ystyried a fuasai'n ddelfrydol i fuddsoddi mewn cyfarpar newydd ar gyfer yr argraffdy o ystyried gwerth sylweddol y gwaith a ddyroddir i argraffwyr allanol gan amrywiol wasanaethau'r Cyngor.**

- **Os penderfynir buddsoddi mewn adnoddau a chyfarpar yn yr Argraffdy dylid penderfynu ar strategaeth farchnata ar gyfer y gwasanaethau a gynigir - fel rhan o'r strategaeth dylid ystyried sefydlu cysylltiad o brif wefan Cyngor Gwynedd i dudalennau ar gyfer yr Argraffdy.**

- **Dylid ystyried a oes galw am wasanaethau a nwyddau eraill a fuasai modd eu hymgorffori gyda'r gwasanaethau cyfredol a gynigir gan yr Argraffdy.**

# TREFNIADAU TROSGLWYDDO HYFFORDDIANT GWYNEDD
## Economi a Chymuned

<u>Bwriad yr Archwiliad</u>
Bwriad yr archwiliad yw sicrhau bod trefniadau priodol yn eu lle o fewn y Cyngor yn dilyn trosglwyddiad Hyfforddiant Gwynedd i Coleg Menai.

<u>Cwmpas yr Archwiliad</u>
Mae'r archwiliad yn canolbwyntio ar y trefniadau a'r rheolaethau yn y meysydd canlynol:

- Trosglwyddiad staff i Coleg Menai;
- Trosglwyddiad offer a cherbydau i Coleg Menai;
- Bod incwm sy'n ddyledus i'r Cyngor wedi cael ei dderbyn;
- Bod cyfrifoldeb talu am nwyddau/gwasanaethau yn trosglwyddo yn amserol i Coleg Menai;
- Bod defnydd cywir o ddeunydd ysgrifennu dan reolaeth;
- Bod ffioedd blynyddol yn cael eu codi ar Coleg Menai.

<u>Prif Ddarganfyddiadau</u>
Y prif ddarganfyddiadau yn deillio o'r archwiliad yw bod dal angen gwneud gwaith i sicrhau bod Coleg Menai yn cael eu hanfonebu am rhai gwasanaethau yn hytrach nag Cyngor Gwynedd.

**<u>Barn yr Archwiliad</u>**

**(B) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb ariannol yn nhrefniadau Trosglwyddo Hyfforddiant Gwynedd gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylid sicrhau bod anfoneb yn cael ei godi ar Coleg Menai am yr arian ffôn sy'n ddyledus.**

- **Dylai bod trefniadau mewn lle i sicrhau pan fod Coleg Menai yn symud allan o swyddfeydd Cibyn bod rhywun o Gyngor Gwynedd yn gyfrifol am y safle hyd nes bod y brydles yn rhedeg allan yn 2012.**

# GRANTIAU CLYBIAU IEUENCTID - GRANT CYFALAF
## Economi a Chymuned

Bwriad yr Archwiliad
Sicrhau bod rheolaethau mewnol priodol ar gyfer gweinyddu arian 'Grant Cyfalaf Clybiau Ieuenctid 2009/10'.

Cwmpas yr Archwiliad
Mae archwiliad yn cwmpasu yr agweddau canlynol

- Bod trefn weinyddu priodol yn bodoli.
- Bod arian wedi ei ddyrannu'n deg.
- Bod yr arian wedi ei ddyrannu yn unol ag amodau a thelerau'r grant.

Prif Ddarganfyddiadau
Gwelwyd bod yr arian grant wedi cael ei ddyrannu i brosiectau a oedd yn cydymffurfio â'r hyn a nodwyd yn llythyr cynnig Llywodraeth Cynulliad Cymru dyddiedig Rhagfyr 2008 fel prosiectau dilys.

Gwelwyd prawf ar ffurf anfonebau bod yr arian grant a ddyrannwyd i Gyngor Gwynedd wedi eu gwario ar brosiectau dilys.

**Barn yr Archwiliad**

**(B) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb ariannol yng ngweinyddiaeth Grant Cyfalaf Clybiau Ieuenctid gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae un argymhelliad:**

- **Dylid sicrhau bod unrhyw fudiad sydd yn derbyn arian yn anfon mewn anfonebau yn rhoi dadansoddiad manwl o wariant y grant cyfalaf o hyn allan.**

## GRANTIAU CLYBIAU IEUENCTID - GRANT REFENIW
### Economi a Chymuned

<u>Bwriad yr Archwiliad</u>
Sicrhau bod rheolaethau mewnol priodol ar gyfer gweinyddu arian 'Grant Refeniw Clybiau Ieuenctid 2009/10'.

<u>Cwmpas yr Archwiliad</u>
Mae'r archwiliad yn cwmpasu yr agweddau canlynol

- Bod trefn weinyddu priodol yn bodoli.
- Bod arian wedi ei ddyrannu'n deg.
- Bod yr arian wedi ei ddyrannu yn unol ag amodau a thelerau'r grant.

<u>Prif Ddarganfyddiadau</u>
Gwelwyd bod trefn dda o gadw anfonebau a thaflenni amser staff yn bodoli ar ffeiliau Gwasanaeth Ieuenctid i gefnogi'r gwariant o'r grant, er hynny roedd ambell achos lle nad oedd anfonebau a thaflenni amser ar y ffeiliau i gefnogi gwariant y grant. Bu i'r archwiliwr dderbyn copïau o'r anfonebau o Uned Credydwyr y Cyngor.

Gwelwyd mewn achosion lle roddwyd arian grant i fudiadau allanol fod anfonebau wedi eu derbyn gan y mudiadau, ond nid oedd yr anfonebau hyn yn rhoi dadansoddiad manwl o'r penawdau roedd yr arian wedi ei wario arnynt.

**<u>Barn yr Archwiliad</u>**

**(B) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb ariannol yng ngweinyddiaeth Grant Refeniw Clybiau Ieuenctid gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae un argymhelliad:**

- **Dylid sicrhau bod unrhyw fudiad sydd yn derbyn arian yn anfon mewn anfonebau yn rhoi dadansoddiad manwl o wariant y grant refeniw o hyn allan.**

**UNED RHEOLI COFNODION**
**Gofal Cwsmer**

Bwriad yr Archwiliad

Bwriad yr archwiliad yw sicrhau bod yr Uned Rheoli Cofnodion yn rheoli cofnodion y Cyngor i sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion llywodraethol a deddfau Rhyddid Gwybodaeth a Diogelu Data.

Cwmpas yr Archwiliad

Adolygu trefniadau rheoli cofnodion y Cyngor sydd wedi cael eu sefydlu gan yr Uned Rheoli Cofnodion er mwyn sicrhau eu bod yn darparu gwasanaeth storio, lleoli a gwaredu cofnodion effeithiol a phriodol i'r Cyngor. Yn ogystal, sicrhau bod yr Uned yn ymwybodol o'r holl gofnodion sy'n cael eu cadw o fewn Adrannau'r Cyngor.

Prif Ddarganfyddiadau

Darganfuwyd bod llawer o drefniadau newydd wedi cael eu sefydlu yn ddiweddar o fewn yr Uned Gwybodaeth, sydd yn ddefnyddiol o ran gweithrediad yr Uned. Yn ogystal, mynegodd yr Uned bod rhagor o welliannau sydd yn eu cynllun gwaith eleni yn cynnwys cynghori er mwyn gwella safonau cynnal a chadw cofnodion y ganolfan rheoli cofnodion. Gwelwyd llawer o wendidau o fewn y system rheoli cofnodion sydd yn rhwystro amseriad cynnal a chadw gwaith yn effeithlon. Er enghraifft, nid oes gan y system y gallu i ddyrannu rhifau stordy yn awtomatig ar ôl i'r rhai blaenorol gael eu dinistrio, a chreu adroddiadau o'r cofnodion sydd yn barod i'w dinistrio. Yn ogystal â'r system rheoli cofnodion, gwelwyd bod y polisïau a gwybodaeth a gyhoeddwyd wedi dyddio bellach neu angen sylw i'w gwneud yn fwy addysgiadol i swyddogion y Cyngor. Darganfuwyd hefyd bod yna gofnodion sydd wedi cael eu hadnabod fel bod ar goll.

Gan nad yw'r Uned yn rheoli holl gofnodion y Cyngor, dim ond yr hyn sydd wedi cael eu storio o fewn y canolfan gofnodion, mae nifer o argymhellion yr adroddiad i bwrpas codi ymwybyddiaeth ar bwysigrwydd rheoli cofnodion y Cyngor, a sicrhau bod safon rheoli cofnodion yn derbyn sylw ar draws y Cyngor.

**Barn yr Archwiliad**

**(C)** **Barn yr Archwiliad yw na ellir datgan sicrwydd o briodoldeb ariannol yng ngweinyddiaeth yr Uned Rheoli Cofnodion gan na ellir dibynnu ar y rheolaethau mewn lle, ond ni ddarganfuwyd colledion / twyll yn deillio o'r gwendidau rheolaeth. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylid diweddaru tudalen fewnrwyd yr Uned Gwybodaeth a'r Canllawiau Defnyddio E-bost yn Effeithiol, fel bod linc yn cael ei sefydlu i'r ddogfennaeth gysylltiedig fel bod yr holl wybodaeth yn ymddangos yn glir ac yn hwylus i swyddogion y Cyngor ei feddiannu.**

- **Dylid cynnal trafodaeth gyda'r Uned Hyfforddi gyda'r bwriad i ychwanegu hyfforddiant rheoli cofnodion at y rhestr o gyrsiau corfforaethol hanfodol ar y matrics hyfforddi. Yn ogystal, dylid symud ymlaen i gyhoeddi llawlyfr electronig ar bolisïau, trefniadau a.y.b. fel bod pob swyddog a rheolwr yn ymwybodol ar sut i reoli cofnodion mewn modd priodol ac effeithlon.**

- **Dylid sicrhau bod y cytundeb gyda'r cwmni dinistrio yn mynnu bod y cwmni dinistrio'n darparu tystysgrif ddinistrio o'r ddogfennaeth sy'n cael eu gwaredu fel bod y Cyngor yn ymwybodol bod y ddogfennaeth wedi ei waredu'n briodol cyn talu'r anfonebau.**

# RHEOLAETH DYFEISIADAU
## Gofal Cwsmer

Bwriad yr Archwiliad

Bwriad yr archwiliad yw i sicrhau fod rheolaethau dros y defnydd o ddyfeisiadau y gellir eu cysylltu â chyfrifiaduron y Cyngor.

Cwmpas yr Archwiliad

Adolygu'r prosesau gweinyddol ac awdurdodol sydd yn amgylchynu rheolaethau'r meddalwedd rheoli dyfeisiadau sydd wedi ei fewnosod gan y Cyngor.

Prif Ddarganfyddiadau

Gwelwyd fod y Cyngor wedi archebu a gosod meddalwedd adnabyddus ar gyfer rheoli dyfeisiadau. Gwelwyd fod y Gwasanaeth TG wedi creu grwpiau penodol ar gyfer y dyfeisiadau amrywiol ac wedi sefydlu trefn swyddogol ar gyfer creu ac awdurdodi cais am hawliau ychwanegol i'r lleiafrif.
Fodd bynnag, nodwyd bod achosion lle mae'n ymddangos fod hawliau ychwanegol wedi eu caniatáu tu allan i'r drefn swyddogol. Teimlai'r Archwilwyr fod hyn yn tanseilio'r rheolaethau diogelwch sydd wedi eu gosod ac mae'n hanfodol nad yw hyn yn parhau. Mae angen atgoffa'r holl staff sydd â'r gallu i osod hawliau i ddefnyddwyr y dylid ond gwneud hynny lle mae achos busnes wedi ei gwblhau a'i awdurdodi yn unol â'r drefn swyddogol. Fel ychwanegiad i hyn, dylid cynnal cofrestr annibynnol o'r holl geisiadau sydd yn cael eu caniatáu drwy'r ffurf swyddogol a dylid ei adolygu o dro i dro yn erbyn adroddiad o'r hawliau sydd gan ddefnyddwyr mewn gwirionedd.
Teimlai'r Archwilwyr fod sgôp i ehangu'r defnydd o'r cyfleuster cofnodi a monitro trosglwyddiadau o ffeiliau sydd yn rhan o'r meddalwedd. Mae'r Archwilwyr o'r farn y dylai fod pob aelod o staff sydd â hawl defnyddio cyfryngau allanol yn destun monitro trosglwyddiadau ffeiliau yn ddi-ofyn. Byddai hyn yn creu dull monitro, cofnod ar gyfer cyfeiriad yn y dyfodol a prawf fod yr hawliau sydd wedi eu caniatau yn cael eu defnyddio mewn gwirionedd.
Nodwyd fod sgôp i dynhau'r trefniadau ar gyfer gosod hawliau dros dro i ddefnyddwyr. Er mwyn ceisio sicrhau fod hawliau yn cael eu diddymu ar yr adegau priodol ym mhob achos, dylid mewnbynnu'r dyddiad diddymu perthnasol yn y meddalwedd rheoli dyfeisiadau a byddai hyn yn awtomeiddio'r diddymiad ar yr amseroedd cywir. Yn ychwanegol i hyn, gellir cofnodi hawliau dros dro mewn dyddiadur, gan ddefnyddio hynny fel trefn wrthgefn i sicrhau eu bod wedi eu diddymu yn unol â'r disgwyl.

**Barn yr Archwiliad**

**(B) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb ariannol yn Rheolaeth Dyfeisiadau gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylid defnyddio'r cyfleuster o osod terfyn amser ar gyfer hawliau arbennig yn y meddalwedd rheoli dyfeisiadau ym mhob achos.**

- **Dylid tynnu sylw pob aelod o staff sydd â'r gallu i ganiatáu hawliau arbennig drwy'r meddalwedd rheoli dyfeisiadau na ddylid gwneud hynny heb fod achos busnes llawn wedi ei gwblhau ar y ffurflen swyddogol a wedi ei awdurdodi yn briodol.**

- **Dylid cynnal rhestr annibynnol o bob hawl arbennig sydd wedi ei ganiatáu i ddefnyddwyr drwy'r drefn swyddogol, a dylid ei chymharu'n gyfnodol gydag adroddiadau unigolion sydd â hawliau ychwanegol mewn gwirionedd.**

## ASIANTAETH CEFNFFYRDD GOGLEDD CYMRU - RISGIAU NEWID HINSAWDD
### Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd Cymru

Bwriad yr Archwiliad
Bwriad yr archwiliad yw sicrhau fod gan yr Asiantaeth Cefnffyrdd ymarferion da a rheolaethau mewn lle i leihau risgiau effeithiau newid hinsawdd ar yr amgylchedd waith. Mae hefyd yn fwriad i sicrhau eu bod yn gweithio yn unol â'u system rheolaeth amgylcheddol (EMS).

Cwmpas yr Archwiliad
Edrych ar drefniadau a pholisïau'r Asiantaeth er mwyn sicrhau fod darpariaethau wedi eu gwneud er mwyn lleihau risgiau newid hinsawdd a'u bod yn weithredol.

Prif Ddarganfyddiadau
Cynhaliwyd profion archwilio ar 24 rheolaeth fewnol. Dangosodd y profion fod rheolaethau mewnol da yn bodoli ym mhob un o'r meysydd hyn (gweler tabl gwerthusiad rheolaeth drosodd).

Gwelwyd fod yr Asiantaeth yn gweithio'n unol â safonau ISO 14001. Yn unol â'r safonau yma, mae ganddo system rheolaeth amgylcheddol (EMS) mewn lle sy'n cynnwys Polisi Amgylcheddol (EM01), Llawlyfr Amgylcheddol (EM02), Cofrestr Effeithiau ac Agweddau Amgylcheddol (EM05), Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Eiddo Cefnffyrdd (EM09), Bâs-data'n Cynnwys Rhestr Eiddo Stâd Meddal (EM10) a Chofrestr Gwastraff Safle (EM11). Gwelwyd hefyd fod yr Asiantaeth yn comisiynu'r Awdurdodau Lleol i gwblhau gwaith ar ei ran a bod gofynion amgylcheddol yn rhan o'r briff (e.e. rheidrwydd i gwblhau adroddiadau geotechnegol cyn dechrau gwaith sylweddol) a'u bod yn ogystal yn dilyn llawer o bolisïau a gweithdrefnau Cyngor Gwynedd ar yr amgylchedd.

Gwelwyd fod un gwendid o fewn Amcan Rheolaethol 1 (Yr Asiantaeth yn lleihau ôl-troed carbon). Mae'r Cyngor yn defnyddio biodanwydd yn ei gerbydau ac mae hwn ar gael yn rhai o ddepos y Cyngor. Cadarnhaodd y Rheolwr Fflyd nad oedd yr Asiantaeth yn defnyddio biodanwydd y Cyngor ar gyfer ei gerbydau.

Petai'r Asiantaeth Cefnffyrdd yn ystyried defnyddio biodanwydd, gall hyn fod yn gymorth iddynt leihau eu hôl-troed carbon. Os yw'r Asiantaeth yn cytuno â'r Rheolwr Fflyd i allu defnyddio biodanwydd y Cyngor ar gyfer cerbydau sydd wedi eu lleoli yn y gogledd orllewin, bydd hyn hefyd yn arwain at arbediad ariannol gan fod biodanwydd y Cyngor yn rhatach na thanwydd o fodurdai masnachol. Byddai hefyd o fudd i holi Awdurdodau Lleol eraill yng Ngogledd Cymru er mwyn dod i'r un trefniant gyda hwythau i gael mynediad ehangach at fiodanwydd.

Dim ond cerbydau'r Asiantaeth gall dderbyn yr hawl i ddefnyddio biodanwydd y Cyngor ac nid cerbydau personol.

**Barn yr Archwiliad**

**(A) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd yn y rheolaethau mewnol sydd gan Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd Cymru mewn lle.**

# CYFLWR FFYRDD - ARCHWILIADAU A CHWYNION Y CYHOEDD
## Priffyrdd a Bwrdeistrefol

Bwriad yr Archwiliad

Bwriad yr archwiliad yw sicrhau fod y Gwasanaeth Rheoli Gwastraff a Chomisiynu o fewn yr Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol yn cynnal arolygiadau rheolaidd ar ddiogelwch ffyrdd y Sir ac yn cadw dogfennaeth berthnasol a chyflawn fel tystiolaeth o hynny fel y gellid amddiffyn achosion yswiriant yn erbyn y Cyngor.

Cwmpas yr Archwiliad

Gwirio trefniadau arolygu ffyrdd Cyngor Gwynedd yn ogystal â dogfennaeth arolygiadau blaenorol i sicrhau eu bod wedi eu cwblhau’n gyflawn â chywir ac o fewn yr amserlen benodol.

Prif Ddarganfyddiadau

Gwelwyd ar y cyfan fod rheolaethau mewnol da'n bodoli wrth weinyddu archwiliadau cyflwr ffyrdd a chwynion y cyhoedd.

**Barn yr Archwiliad**

**(B) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb ariannol yn Cyflwr Ffyrdd - Archwiliadau a chwynion y cyhoedd gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylid parhau i ddiweddaru’r rhestr asedau yn gyfnodol a bod trefniadau mewn lle i sicrhau ei fod yn gyflawn.**
- **Dylid sicrhau fod y taflenni sy'n cael eu defnyddio i gofnodi arolygon ffyrdd yn gyson trwy'r Awdurdod a bod yr Arolygwr yn eu harwyddo i gadarnhau fod y wybodaeth yn gywir.**
- **Dylid fod pob ymdrech yn cael ei wneud i allu gwneud defnydd llawn o'r system sydd ar y 'toughbook'.**
- **Dylid sicrhau fod gan swyddogion o adrannau eraill y Cyngor sy'n gweithio ar alwad y cymwysterau priodol ar gyfer gwneud hynny.**

# COSTAU TOILEDAU CYHOEDDUS
## Priffyrdd a Bwrdeistrefol

Bwriad yr Archwiliad

Bwriad yr archwiliad fydd sicrhau bod costau toiledau cyhoeddus Cyngor Gwynedd yn rhesymol, mesuradwy ac yn cynnig gwerth am arian.

Cwmpas yr Archwiliad

Cwmpas yr archwiliad fydd dadansoddi costau toiledau cyhoeddus gan sicrhau bod cyfiawnhad digonol ar gyfer y gwariant er mwyn gallu cadarnhau dilysrwydd cost unedol toiledau Gwynedd.

Prif Ddarganfyddiadau

Mae'r gwasanaeth toiledau cyhoeddus Cyngor Gwynedd wedi bod drwy newidiadau sylweddol yn ystod y ddwy flynedd diwethaf. Mae hyn wedi golygu lleihad yn nifer o gyfleusterau mae'r Cyngor yn ei ddarparu ac yng nghyllideb y gwasanaeth. Prif ddarganfyddiadau'r archwiliad yw bod angen i'r gwasanaeth weithredu ar yr argymhellion a gafodd ei gymeradwyo gan y Cyngor a hefyd atgyfnerthu'r trefniadau gweinyddol.

**Barn yr Archwiliad**

**(B) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb ariannol yn Costau Toiledau Cyhoeddus gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylid cael rhestr eiddo cyfredol o holl doiledau cyhoeddus Cyngor Gwynedd.**
- **Dylid sicrhau nad oes costau yn cael eu traddodi (e.e. costau dwr, trydan a threthi) ar doiledau cyhoeddus sydd bellach wedi eu cau.**
- **Dylid ystyried os oes angen gosod mwy o eiddo toiledau cyhoeddus Cyngor Gwynedd ar y fantolen.**
- **Dylai Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol sicrhau bod eiddo toiledau cyhoeddus Cyngor Gwynedd wedi eu rhestru yn gywir ar yr atodlen yswiriant.**
- **Dylai anfonebau sy'n berthnasol i gyllideb BR4 gael eu hawdurdodi gan ddeilydd y gyllideb - Peiriannydd Grŵp Bwrdeistrefol - er mwyn sicrhau atebolrwydd am y gwariant.**
- **Dylid ystyried ail ymweld â'r cytundeb glanhau er mwyn sicrhau ei fod yn gyfredol ar gyfer anghenion 2010 gwasanaeth toiledau cyhoeddus Cyngor Gwynedd - yn nhermau cost a darpariaeth.**